**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL**
**CYFARFOD / MEETING 6.3.2017**

**PRESENNOL:** Cadeirydd Mrs C Lloyd, Mrs. E Jones,Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts,Mr G Williams,Mr B Veevers a'r Cynghorydd Dylan Rees**.**

**YMDDIHEURIADAU:** Derbyniwyd ymddiheuriad am eu habsenoldeb oddi wrth Ms M Williams a'r Cynghorydd R G Parry.

**COFNODION:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6 Chwefror 2017 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

**MATERION YN CODI:**

**1. Cloc y pentref.** Gwaith ail bwyntio wedi'r ddechrau a dywedodd y Clerc y dylai'r gwaith wedi ei orffen cyn diwedd yr wythnos hon. Dywedodd hefyd bod teulu Tŷ Newydd wedi rhoi caniatâd i'r contractwr osod ei beiriannau yng nghwrtil Tŷ Newydd - hynny wedi arbed arian i'r Cyngor trwy beidio gorfod llogi sgaffaldiau o gwmpas y cloc. Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch am eu cydweithrediad at deulu Tŷ Newydd.

**2. Cytundeb cyflogaeth.** Diolchwyd i Mrs Sharon Jones am adolygu'r cytundeb Cymeradwywyd a derbyniwyd y Cytundeb gan y Cyngor, ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd a'r Clerc.

**3. Cyfraniadau Lleol:** Penderfynwyd ar gyfraniadau fel a ganlyn: **£100.00 Eglwys St Morhaearn a £100.00 i Gapel Jerusalem** at gynnal a chadw'r mynwentydd; **£100.00 i Ysgol y Ffridd; £50.00 i'r Ysgol Feithrin.**

**GOHEBIAETH:**

**1. Cyngor Sir Ynys Môn.**

**(a) Etholiadau Cyngor Sir, Cymuned a Thref 4 Mai 2017.** Paciau enwebu wedi eu derbyn ar gyfer yr aelodau presennol. Dosbarthwyd y paciau yn y cyfarfod a

**PRESENT:** Chairman Mrs C Lloyd, Mrs. E Jones,Mrs S Jones, Ms M E Evans, Mrs S Roberts,Mr G Williams,Mr B Veevers and Councillor Dylan Rees**.**

**APOLOGIES:** Apologies for their absence received from Ms M Williams and Councillor R G Parry.

**MINUTES:** Minutes of the meeting held on the 6 February 2017 were accepted as a true record of the meeting.

**MATTERS ARISING:**

**1. Village Clock.** The Clerk reported that the work of re-pointing had started and should be completed before the end of this week. She also reported that occupants of Tŷ Newydd had kindly agreed to the contractor putting a cherry picker on the yard at Tŷ Newydd. This had saved the Council a deal of money as otherwise scaffolding would have had to be hired in order to do the work. It was decided to send a letter of thanks to Mr & Mrs Francis for their kind co-operation.

**2. Contract of Employment.** Mrs Sharon Jones was thanked for reviewing the contract which was approved and accepted by the Council. The Chairman and the Clerk duly signed the Contract.

**3. Local Donations;** It was decided as follows: **£100.00 to St Morhaearn Church and Jerusalem Chapel** towards maintaining the cemeteries; **£100.00 to Ysgol y Ffridd; £50.00 to the Nursery School.**

**CORRESPONDENCE:**

**1. Isle of Anglesey County Council.**

**(a) County, Community/Town Council Elections 4 May 2017.** Nomination packs to be distributed to present members were received. These were

gofynnwyd i'r Clerc anfon pac at y tri aelod oedd yn absennol.

**(b) Cynllunio. Rhybudd derbyn cais** fel a ganlyn: Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw bloc stabl ar dir gyferbyn a Drip Bach; cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 31 Maes Meurig. **Penderfyniadau Cynllunio** fel a ganlyn: Caniatâd i gais llawn i godi tŷ fforddiadwy ynghyd a chreu mynedfa newydd i geir ar dir ger Eithinog; copi o benderfyniad yr Arolygaeth Gynllunio ar apêl Mrs Patricia Dobbie,Bryn Hyfryd - yr apêl wedi'i gwrthod.

**(c) Prydles Cae Peldroed.** Llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn cynghori bod y les bresennol yn dod i ben ar y 31 Awst 2017 ac yn gosod y telerau ar gyfer les newydd. Ar ddarllen y cynnwys a'r telerau newydd, y Clerc wedi dod a'r llythyr i sylw'r Cadeirydd a'r Cynghorydd R G Parry ar unwaith. Llwyddodd y Cynghorydd Parry i drefnu cyfarfod brys ar yr 8 Mawrth rhyngddo ef, y Cadeirydd a'r Clerc a swyddog o Adran Eiddo'r Cyngor Sir i drafod y llythyr.. Rhoddir adroddiad ar y cyfarfod hwn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned. Diolchwyd i'r Cynghorydd Parry am drefnu'r cyfarfod.

**(d) Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith – diweddariad mis Chwefror 2017.** Er gwybodaeth.

**2. Un Llais Cymru.**
**Trafodwyd a derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol er gwybodaeth :** Bwletin Un Llais Cymru 2017; Hyfforddiant Mawrth; Preswyliad llenyddol ym Mrwsel; Adroddiad ar gyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr 23 Ionawr 2017; Datganiad Newyddion - Dementia; Adroddiad Blynyddol PACGA; Ymgynghoriad ar gylchlythyr

distributed at the meeting and the Clerk was requested to send a pack to the three members who were absent.

**(b) Planning. Notice of Receipt of applications** as follows: Application for retention of stable block on land opposite Drip Bach; Full application for alterations and extensions at 31 Maes Meurig. **Planning Decisions** as follows: Full application for the erection of an affordable dwelling together with the creation of a new vehicular access on land adjacent to Eithinog was granted; Copy of the Planning Inspectorate's Decision on Mrs Patricia Dobbie, Bryn Hyfryd's appeal – the appeal was dismissed.

**(c) Football field Lease.** Letter from the County Council advising that the present lease will be terminating on the 31 August 2017 and setting out the terms for a new lease., On reading the letter and the terms of the new lease, the Clerk had brought the letter to the attention of the Chairman and Councillor R G Parry immediately. Councillor Parry succeeded in setting up an urgent meeting on the 8th March between himself, the Chairman, the Clerk and an officer from the County Council to discuss the letter. A report on this meeting will be given at the next meeting of the Community Council. Councillor Parry was thanked for arranging the meeting.

**(d) Executive's forward work programme – February 2017 update.** For information.

**2. One Voice Wales.**
**The following correspondence was discussed and accepted for information:** One Voice Wales February 2017 Bulletin; March Training; Brussels Literary Residency; Betsi Cadwaladr Stakeholder Reference Group 23 January 2017; News Release – Dementia; IRP Annual Report 2017; Consultation on draft circular for the planning of gypsy,

drafft ar gyfer cynllunio safleoedd sipsiwn, teithwyr a siewmyn; Adroddiad ar weithdy ar waredu gwastraff ymbelydrol; Cyfle Penodiadau Cyhoeddus - Comisiynwr Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Digwyddiad ar y Cyd rhwng Un Llais Cymru a SLCC 12 Gorffennaf yn Ewlo; Rhaglen Digwyddiadau Cyfnewidfa Arfer Da; Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru - Ail Gyfnod Ymgynghori

traveller and showmen sites; Report on workshop on disposal of radioactive waste; Public Appointments Opportunity – Commissioner Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales; One Voice Wales/SLCC Joint Event 12 July 2017 at Ewloe; Good Practice Exchange Programme of Events; The 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales – Secondary Consulatation Period.

**3. Mr D R Williams, Frondeg.** Llythyr yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned i geisio atal goryrru trwy'r pentref. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc ysgrifennu at Sgt Roberts Gan Bwyll Cymru yn ei wahodd i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y mater. Copi o'r llythyr i'w anfon at Mr D R Williams, Rhun ap Iorwerth AC ac Albert Owen AS.

**3. Mr D R Williams, Frondeg.** Letter requesting the Community Council's support in trying to stop traffic speeding through the village. It was decided to send a letter to Sgt Roberts Go Safe Wales inviting him to the next meeting of the Council to discuss the matter. A copy of the letter to be sent to Mr D R Williams, Rhun ap Iorwerth AM and Albert Owen MP.

**4. NPower.** Cytundeb newydd am gyflenwad trydan i'r cloc. Cytundeb tair blynedd ar gost o 16.50c/kwh a chost sefydlog o £21.92 y chwarter.

**4. NPower.** New contract for electricity supply to the clock. 3 year contract at a cost of £16.50p/kwh and a standing charge of £21.92 per quarter.

**5. Cais am gyfraniad** oddi wrth Bobath Cymru, Ffermwyr Ifanc Ynys Môn a Jeff Evans. Penderfynu peidio cyfrannu.

**5. Application for donations** from Bopath Wales, Anglesey Young Farmers and Jeff Evans. It was decided not to donate.

**ARIANNOL:**
**Anfonebau a thaliadau** i'w talu fel a ganlyn:
**Hywel Hughes, £43.75** am gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Ionawr 2017;
**NPower £31.33** cyflenwad trydan i'r cloc 1/11/2016-31/1/2017;
**£126.00 Un Llais Cymru** tâl aelodaeth 2017/18;
**£100.00 Clwb yr Henoed** tal am logi'r ganolfan ar gyfer 10 cyfarfod Ebrill 2016-Mawrth 2017;
**£300.00 Neville Williams** tal am ofalu am y cloc;
**£941.51 Mrs M E Price,** cyflog chwarterol y Clerc, stampiau post a

**FINANCIAL:**
**Invoices and payments** to be paid as follows:
**Hywel Hughes, £43.75** for interpreting at the January meeting;
**NPower £31.33** electricity supply to the clock 1/11/2016-31/1/2017;
**£126.00 One Voice Wales** membership fee tal aelodaeth 2017/18;
**£100.00 Clwb yr Henoed** payment for hiring the hall to conduct 10 meetings April 2016-March 2017;
**£300.00 Neville Williams payment for attending to the clock;**
**£941.51 Mrs M E Price,** Clerk's quarterly salary, postage stamps and fixed

chostau sefydlog 2016/2017;
**£95.00 HMRC,** PAYE ar gyflog y Clerc.

costs. 2016/2017;
**£95.00 HMRC,** PAYE ar Clerk's salary.

**CYFARFOD NESAF:** Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 3 Ebrill 2017 am 7pn yng Nghanolfan yr Henoed.

**NEXT MEETING:** The next meeting will be held on Monday 3 April 2017 at 7pm at the Pensioners' Hall.